Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Fframweithiau cyffredin, marchnad fewnol y DU a rhwymedigaethau rhyngwladol: Trosolwg

## Briff Ymchwil

Gorffennaf 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **Lucy.Valsamidis@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Fframweithiau cyffredin, marchnad fewnol y DU a rhwymedigaethau rhyngwladol: Trosolwg

## Briff Ymchwil

Gorffennaf 2020

**Awdur:**
Lucy Valsamidis a Sara Moran

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad .......... 1**

**2. Y rhaglen fframweithiau cyffredin .......... 2**

2.1. Yr amserlenni a'r model craffu arfaethedig .......... 2

2.2. Y cynnydd .......... 3

2.2.a Cyffredinol .......... 3

2.2.b Meysydd y fframweithiau .......... 4

**3. Y cyd-destun ehangach: Rhwymedigaethau'r farchnad fewnol a rhyngwladol .......... 6**

3.1. Agweddau'r llywodraethau .......... 6

3.2. Marchnad fewnol y DU .......... 7

3.2.a Cefndir .......... 7

3.2.b Datblygiadau diweddar .......... 8

3.3. Rhwymedigaethau rhyngwladol .......... 9

3.3.a Rhwymedigaethau rhyngwladol presennol .......... 9

3.3.b Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon .......... 10

3.3.c Trefniadau masnachu yn y dyfodol â'r UE ac yn rhyngwladol .......... 10

3.4. Datrys anghydfodau a'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol .......... 11

**4.Datblygu cyfraith a pholisi ym meysydd y fframweithiau cyffredin ........................................................................................13**

4.1. Dargadw cyfraith yr UE a fframweithiau cyffredin ..........................13

4.2. Datblygu fframweithiau dros dro ..........................................................14

4.3. Deddfwriaeth sylfaenol ..........................................................................14

4.3.a Y Bil Amaethyddiaeth ..........................................................................15

4.3.b Y Bil Pysgodfeydd ..........................................................................15

4.3.c Bil yr Amgylchedd ..........................................................................16

4.3.d Y Bil Masnach ..........................................................................16

4.3.e Y Ddeddf Gofal Iechyd (AEE a'r Swistir) ..........................................16

4.4. Defnyddio cytundebau rhynglywodraethol .....................................17

# 1. Cyflwyniad

Yn 2017, **cytunodd llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban** y byddai angen iddynt reoli gwahaniaethau rhwng gwahanol rannau o'r DU mewn rhai meysydd polisi lle mae cyfraith yr UE yn berthnasol, a honno'n croestorri â chymhwysedd datganoledig. Cytunwyd y byddent yn cydweithio i sefydlu **fframweithiau cyffredin** ar gyfer y meysydd hynny. Mae Llywodraeth y DU yn **cyhoeddi adroddiadau rheolaidd** ar gynnydd y rhaglen fframweithiau cyffredin. Mae **adran 2** y briff hwn yn trafod cynnydd y rhaglen.

Cytunodd llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig i sefydlu fframweithiau cyffredin ar sail meini prawf penodol. Roedd y meini prawf hyn yn cynnwys cynnal marchnad fewnol yn y DU, gan gydnabod y gallai polisïau fod yn wahanol, sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol, a sicrhau y gall y DU drafod, ymrwymo a gweithredu cytundebau rhyngwladol newydd, gan gynnwys cytundebau masnach. Ystyrir y berthynas rhwng y pethau hyn yn **adran 3**.

Ochr yn ochr â datblygu'r fframweithiau cyffredin eu hunain a gwaith ar farchnad fewnol y DU, mae cyfreithiau a pholisïau newydd wedi cael eu datblygu yng ngwahanol feysydd y fframweithiau cyffredin. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen i gadw cyfraith yr UE o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, datblygu fframweithiau dros dro, deddfwriaeth sylfaenol ym meysydd y fframweithiau, a defnyddio cytundebau rhynglywodraethol. Trafodir datblygiad cyfreithiau a pholisïau ym meysydd y fframweithiau cyffredin yn **adran 4**.

# 2. Y rhaglen fframweithiau cyffredin

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddadansoddiad o ba feysydd polisi y byddai angen fframweithiau cyffredin ynddynt ym mis **Ebrill 2019**. Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r fframweithiau cyffredin **ar ffurf cytundebau anneddfwriaethol** rhwng llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig. **Gallai'r rhain gynnwys** Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, concordatau neu ffurfiau eraill ar gytundebau. Bydd rhai fframweithiau hefyd yn cynnwys deddfwriaeth. Mae'r llywodraethau hefyd wedi cytuno na fydd angen fframweithiau ar gyfer rhai meysydd lle mae cymhwysedd datganoledig a chymhwysedd yr UE yn croestorri.

## 2.1. Yr amserlenni a'r model craffu arfaethedig

Mae'r llywodraethau wedi dweud y bydd y fframweithiau'n cael eu datblygu mewn **pum cam**:

- **Cam 1** – Egwyddorion a phrofi cysyniadau
- **Cam 2 -** Datblygu polisi sy'n arwain at 'fframwaith amlinellol'
- **Cam 3 -** Adolygu ac ymgynghori yn arwain at 'fframwaith dros dro' i'w gymeradwyo gan weinidogion pob Llywodraeth
- **Cam 4 -** Paratoi a gweithredu
- **Cam 5** – Y trefniadau ac ailwerthuso ar ôl cyflwyno'r fframweithiau

Mae llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig hefyd wedi bod yn datblygu dull ar y cyd o graffu ar y fframweithiau yn y seneddau. Ar 9 Mawrth, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i **grynhoi'r model craffu arfaethedig** ar gyfer y fframweithiau cyffredin. Roedd hyn yn dilyn **cynigion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** ar gyfer model craffu ym mis Rhagfyr.

Mae'r model craffu drafft yn nodi:

- Yng **Ngham 3**, bydd pob llywodraeth yn anfon crynodeb o gytundeb fframwaith amlinellol drafft i'w deddfwrfa, gan gynnig darparu briff technegol;
- Yng **Ngham 4**, ar ôl i weinidogion y Cyd-Bwyllgor Gweinidogol gytuno ar y fframwaith amlinellol dros dro, bydd y fframwaith yn cael ei osod ym mhob deddfwrfa a bydd pwyllgorau yn cynnal unrhyw ymchwiliadau;
- Bydd y llywodraethau yn adolygu ymatebion y deddfwrfeydd ac yn cytuno ar y

cyd ar unrhyw newidiadau;

- Bydd gweinidogion y DU a'r gwledydd datganoledig yn adolygu ac yn cytuno ar y fframwaith amlinellol dros dro. Byddant yn darparu'r fersiwn derfynol i bob deddfwrfa, ynghyd â'u hymateb i argymhellion y pwyllgorau.

Mewn llythyr at Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd ar 11 Mehefin, **dywedodd y Prif Weinidog** fod Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i'r rhaglen fframweithiau. O ran craffu ar y fframweithiau, dywedodd:

> mae'r Fframweithiau Cyffredin yn destun negodiadau rhynglywodraethol ac nid gan Lywodraeth Cymru y mae'r gair olaf, o bell ffordd, ar eu ffurf a'u cynnwys.
>
> [...]
>
> Felly, er y bydd modd i'r Senedd a'r deddfwrfeydd gynnig diwygiadau neu newidiadau i'r fframweithiau, gallai fod yn anodd i ddiwygiadau a argymhellir gan un ddeddfwrfa yn unig gael eu derbyn. Ymddengys yn briodol, felly, bod y deddfwrfeydd yn cydweithio wrth graffu ar Fframweithiau drafft, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol.

## 2.2. Y cynnydd

### 2.2.a Cyffredinol

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **seithfed adroddiad** ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a sefydlu fframweithiau ym mis Mai, gan gwmpasu'r cyfnod hyd at fis Mawrth 2020. Mewn ymateb i gwestiynau gan **Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Senedd ar 2 Mehefin am y cynnydd gyda'r rhaglen fframweithiau cyffredin ac effaith COVID-19, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> [...] it's essentially impossible to deliver the common frameworks programme in the way that it was originally envisaged by the end of this year.

Mewn llythyr at Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd ar 2 Gorffennaf, dywedodd y **Cwnsler Cyffredinol**:

- nod y llywodraethau yw datblygu **cytundeb amlinellol fframwaith** ar gyfer pob fframwaith erbyn diwedd 2020. Byddai hwn wedi'i gadarnhau dros dro gan y gweinidogion ac yn gweithio ar ffurf drafft. Fan lleiaf, byddai'n cynnwys 'amserlen gyflawni, trefn lywodraethu glir ar draws y llywodraethau perthnasol (gan gynnwys sut y gellid rheoli gwahaniaethau), mecanwaith osgoi a datrys anghydfod, a datganiad o ddiben i gadarnhau ein hymrwymiad ar y cyd i ddatrys hyn yn gynnar'.

- Mewn rhai achosion, efallai na fydd modd cael cytundebau amlinellol fframwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Yn yr achosion hynny, mae'r llywodraethau'n bwriadu cael **cytundebau dros dro**.

Dywedodd y byddai'r fframweithiau'n cael eu cwblhau, gan gynnwys gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd, yn ystod 2021.

### 2.2.b Meysydd y fframweithiau

Mae **seithfed adroddiad Llywodraeth y DU ar fframweithiau cyffredin** yn dweud:

> Several frameworks have completed formal review processes at official-level. These frameworks are approaching 'provisional confirmation', and will be brought before JMC(EN) ministers in due course.

Ar y pryd, roedd dau fframwaith wedi cwblhau adolygiad ac asesiad Cam 3 ac wedi cael eu cymeradwyo gan swyddogion llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig: y fframwaith **Honiadau am Faethiad ac Iechyd, Cyfansoddiad a Labelu Bwyd**, a'r fframwaith **Sylweddau Peryglus (Cynllunio).**

Cyhoeddwyd y **fframwaith amlinellol drafft ar gyfer sylweddau peryglus** ym mis Gorffennaf 2019. Dyma'r unig fframwaith amlinellol drafft sydd wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd.

Mae'r seithfed adroddiad hefyd yn nodi bod yr adolygiad yng Ngham 2 bellach wedi'i gwblhau ar gyfer y fframwaith System Masnachu Allyriadau. Ym mis Mehefin, cyhoeddodd y llywodraethau bapur ar y cyd am **system masnachu allyriadau arfaethedig**. Dywed y papur hwn fod y llywodraethau'n cydweithio i ddatblygu fframwaith cyffredin sy'n nodi rolau, prosesau gwneud penderfyniadau a threfniadau gweithio o dan system masnachu allyriadau ar gyfer y DU. Mae hefyd yn nodi y byddai'r DU yn barod i ystyried cysylltiad rhwng unrhyw System Masnachu Allyriadau ar gyfer y DU yn y dyfodol a System Masnachu Allyriadau'r UE (fel mae'r Swistir wedi'i wneud gyda'i system hi), pe bai hynny'n cyd-fynd â buddiannau'r ddwy ochr.

Yn ei lythyr at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 2 Gorffennaf, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod y llywodraethau wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â'r Fframweithiau blaenoriaeth. Dywed fod cytundeb 'yn fras' y bydd hyn yn cynnwys:

- System Masnachu Allyriadau
- Cymorth Amaethyddol

- Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoleiddio Cemegion (gan gynnwys Plaladdwyr)
- Diogelwch a Hylendid Bwyd a Phorthiant
- Iechyd Planhigion, Hadau a Deunyddiau Lluosogi
- Gwastraff ac Adnoddau
- Safonau Labelu a Chyfansoddiad Bwyd
- Maeth

# 3. Y cyd-destun ehangach: Rhwymedigaethau'r farchnad fewnol a rhyngwladol

## 3.1. Agweddau'r llywodraethau

Mae gan wahanol lywodraethau yn y DU wahanol agweddau at gysoni'u cyfreithiau â chyfraith yr UE ac at gyflwyno cyfreithiau gwahanol ar ôl diwedd y cyfnod pontio, ac mae gwahanol gyfyngiadau arnynt yn hynny o beth. Gallai hyn effeithio ar ddatblygiad fframweithiau cyffredin a marchnad fewnol y DU.

Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth y DU i'w chyfraith fod yn gyson â chyfraith yr UE ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae **Llywodraeth yr Alban bellach wedi cyflwyno** deddfwriaeth i'w galluogi i wneud rheoliadau mewn meysydd sy'n cyfateb i gyfraith yr UE, i orfodi cyfraith yr UE, i weithredu Cyfarwyddebau'r UE neu i addasu cyfraith yr UE a gaiff ei dargadw. O dan Brotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon, rhaid i gyfraith Gogledd Iwerddon fod yn gyson â chyfraith yr UE mewn ystod eang o feysydd lle bwriedir cyflwyno fframweithiau (ceir crynodeb yn y **briff hwn gan Gynulliad Gogledd Iwerddon**, t. 23). Mae **Llywodraeth y DU wedi ymrwymo** i ddeddfu i sicrhau mynediad dilyffethair i fusnesau Gogledd Iwerddon i farchnad fewnol y DU gyfan o ddiwedd y cyfnod pontio.

Ym mis Hydref 2019, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd** mai parhau i ddatblygu'n gyfochrog â deddfwriaeth yr UE oedd nod ac amcan y llywodraeth. Fodd bynnag, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Senedd** ym mis Chwefror nad oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ddatblygu'n gyfochrog. Dywedodd fod hyn oherwydd bod ffyrdd eraill i sicrhau bod deddfwriaeth Cymru'n datblygu'n gyfochrog â deddfwriaeth yr UE pan ystyrid hynny'n angenrheidiol, ac roedd yn pryderu na fyddai'n dderbyniol i'r Senedd roi pwerau i weinidogion wneud hynny drwy reoliadau.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> Rŷn ni'n bwriadu dilyn proses y fframweithiau cyffredin hyd at ei diwedd cyn penderfynu ble y gall fod angen inni ddilyn datblygiadau yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

## 3.2. Marchnad fewnol y DU

### 3.2.a Cefndir

Mae llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig yn gwneud gwaith ar farchnad fewnol y DU ochr yn ochr â'r rhaglen fframweithiau cyffredin.

Mae **seithfed adroddiad Llywodraeth y DU ar y rhaglen fframweithiau yn datgan** bod Llywodraeth y DU wedi ceisio datblygu dull trawsbynciol ar y cyd tuag at farchnad fewnol y DU gyda Llywodraethau Cymru a'r Alban, ochr yn ochr â mewnbwn ffeithiol gan Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon cyn adfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ym mis Ionawr.

Gellid sefydlu marchnad fewnol yn y DU mewn gwahanol ffyrdd. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban eleni, dywedodd **Emily Lydgate a Chloe Antony o Arsyllfa Polisi Masnach y DU ym Mhrifysgol Sussex** fod yr opsiynau ar gyfer cynnal marchnad yn y DU yn cynnwys:

- cytundeb gwirfoddol rhwng llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig;
- Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau i rewi cymhwysedd datganoledig o dan adran 12 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018;
- Llywodraeth y DU yn ymgorffori egwyddor o gyd-gydnabod, gan ei gwneud yn ofynnol, oni bai y gall gwlad brofi nad yw cynnyrch wedi'i fewnforio yn cwrdd â'i safonau ar gyfer diogelwch y cyhoedd, iechyd neu'r amgylchedd, y rhagdybir bod safonau'n gyfwerth;
- dibynnu ar ofynion labelu mewn meysydd lle ceir gwahaniaethau. Ni fyddai hynny'n atal cynhyrchion rhag cylchredeg, ond byddai'n dibynnu ar ddewis y defnyddiwr;
- y llywodraethau datganoledig yn cynnal gwiriadau rheoliadol i ffwrdd o ffiniau mewnol y DU i osgoi tarfu cymaint ag y bo modd.

Mewn tystiolaeth i'r un ymchwiliad, **dywedodd yr Athro Aileen McHarg** fod dau ddull bras y gellid eu hystyried os mai'r nod oedd cyflwyno system drylwyr i reoleiddio marchnad fewnol y DU yn y dyfodol:

- **model deddfwriaethol.** Gallai hyn ddarparu set gyson o gyfyngiadau ar y sefydliadau datganoledig i atal gormod o wahaniaethau rheoleiddiol. Fodd bynnag, ni fyddai'n gallu cyfyngu ar Senedd y DU yn yr un modd ag y byddai'n cyfyngu ar y sefydliadau datganoledig.
- **model rhynglywodraethol.** Byddai hyn yn cael effaith gymesur ar

llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig, ond byddai'n codi cwestiynau ynghylch tryloywder, atebolrwydd a datrys anghydfodau.

### 3.2.b Datblygiadau diweddar

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd ar 15 Mehefin, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth y DU gynnig deddfu ar farchnad fewnol y DU.

> Wel, rŷm ni'n disgwyl Papur Gwyrdd gan y Llywodraeth yn San Steffan ar gyfer opsiynau deddfwriaethol ar gyfer y farchnad fewnol. Rŷn ni wedi bod yn glir, fel Llywodraeth, nad ydydm ni'n gweld bod angen cael sail ddeddfwriaethol iddo, yn benodol un sydd ddim yn ymestyn, fel maen nhw'n bwriadu, rwy'n credu, tu hwnt i EU retained law. Felly, dŷn ni ddim yn gweld bod angen hynny ac, a dweud y gwir, mae hyn yn broblematig i ni o ran safbwynt datganoli oherwydd y syniad yma o mutual recognition. Hynny yw, **os ŷch chi'n gallu cynhyrchu rhywbeth i gyrraedd y safon yn un o'r pedair gwlad, mae'n rhaid i bob gwlad dderbyn hynny ar y farchnad**. [Pwyslais Ymchwil y Senedd]
>
> Felly, os ŷch chi'n gweld, mewn cyd-destun, fod gyda chi ran fel Gogledd Iwerddon, sydd yn mynd i fod yn gymwys gyda'r acquis Ewropeaidd, ac ar yr ochr arall y Llywodraeth yn Lloegr, sydd yn bwriadu dadreoleiddio, mae cryn risg gyda ni wedyn, os ydy'r egwyddor honno'n cael ei chytuno neu'n cael ei deddfu, y byddai rhywbeth sy'n mynd ar y farchnad yn Lloegr i safonau gwahanol efallai ac yn is mewn un maes yn gorfod cael ei dderbyn mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol.
>
> Felly, mae hynny'n eich gadael chi mewn sefyllfa lle, er nad yw'r pwerau wedi cael eu trosglwyddo, mae gyda chi'r setliad yn ei le. Yr effaith economaidd i hynny, wrth gwrs, yw bod incentive economaidd i bobl wneud hynny, ac mae hynny, yn y pen draw, yn mynd i ddisodli'r egwyddor o ddatganoli yn y meysydd hynny. Felly, mae hynny'n broblem sylweddol iawn—os bydd yr egwyddor honno yn cael ei deddfu fel egwyddor sy'n sail i'r farchnad fewnol.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd ar 30 Mehefin, **dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru** fod Llywodraeth y DU yn benderfynol o gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, ond nad oedd yn sicr a fyddai hynny'n golygu darn penodol o ddeddfwriaeth ynghylch marchnadoedd mewnol, ynteu a fyddai marchnadoedd mewnol yn rhan o ddarn ehangach o ddeddfwriaeth.

Ar 3 Gorffennaf, ysgrifennodd **Michael Russell, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban, at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn**. Mae'r llythyr yn datgan:

> We understand that it is now likely that your government wishes to introduce legislation before the end of the year that would enshrine in law what you call the 'UK internal market'.

Mae Michael Russell yn mynegi pryderon yn ei lythyr ynghylch cyflwyno egwyddorion cyd-gydnabod:

> The introduction of a mutual recognition regime of the type we understand you wish to bring forward would mean that a reduction in standards in one part of the UK would have the effect of pushing down standards elsewhere in the UK, in direct contradiction of the preferred approaches of stakeholders and decisions taken by the devolved parliaments. Mutual recognition could be applied to a range of devolved policy choices such as food standards.

Mae hefyd yn mynegi pryderon bod Llywodraeth y DU yn ystyried sefydlu corff a chanddo bŵer i benderfynu a fyddai deddfwriaeth Senedd yr Alban yn effeithio ar farchnad fewnol y DU. Mae'n datgan:

> If such a market impact 'test' had been available in previous years, there would have been a significant risk that important and successful policies, which have attracted widespread public support, such as the imposition of minimum unit pricing, tuition fees policy and the ban on smoking in public places, would have been among the devolved policy measures that could well have been caught up in these new arrangements. Indeed they could still be challenged, depending on the powers and functions of the proposed body.

Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **Phapur Gwyn** ar y farchnad fewnol ar 16 Gorffennaf. Bydd briff arall gan Ymchwil y Senedd yn cael ei gyhoeddi ar fanylion y cynigion sydd ynddo.

## 3.3. Rhwymedigaethau rhyngwladol

### 3.3.a Rhwymedigaethau rhyngwladol presennol

Mae llawer o rwymedigaethau rhyngwladol y DU yn croestorri â meysydd y mae cyfraith yr UE yn berthnasol iddynt. Maent yn croestorri hefyd â chymhwysedd datganoledig a'r fframweithiau cyffredin y bwriedir eu creu (er enghraifft, cytundebau amgylcheddol rhyngwladol).

Ar ddiwedd y cyfnod pontio, bydd rhwymedigaethau rhyngwladol y DU yn hawlio mwy o sylw, yn enwedig mewn meysydd a lywodraethid yn y gorffennol gan yr UE. Disgwylir i'r DU ddod yn fwy dibynnol ar gyfraith ryngwladol, gan arwain at newid sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r DU.

Yn ogystal, mae'r UE yn ymgorffori ei rwymedigaethau rhyngwladol yn ei system gyfreithiol ei hun, ac mae'n rhan o nifer o gytundebau rhyngwladol ei hun hefyd. Os yw un o Aelod-wladwriaethau'r UE yn rhan o'r un cytundeb rhyngwladol ar ei phen ei hun, effaith hyn yw rhwymo'r Aelod-wladwriaeth honno yng nghyfraith yr UE, yn ogystal ag mewn cyfraith ryngwladol, i rwymedigaeth benodol. Felly, mae'n bosibl bod rhai rhwymedigaethau rhyngwladol eisoes wedi'u hymgorffori yn system gyfreithiol ddomestig y DU drwy system gyfreithiol yr UE, gan ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod a gwneud y broses o ganfod ffynhonnell y rhwymedigaeth yn heriol.

Mae gan y DU rwymedigaethau rhyngwladol yn holl feysydd y fframweithiau cyffredin. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd y rhain yn cael eu canfod na sut y penderfynir beth fydd y goblygiadau i'r rhaglen fframweithiau cyffredin.

### 3.3.b Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon

Mae **seithfed adroddiad Llywodraeth y DU ar fframweithiau cyffredin** yn nodi bod Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi bod yn dadansoddi effaith y Protocol ar fframweithiau unigol a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd.

O dan Brotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon, rhaid i gyfraith Gogledd Iwerddon fod yn gyson â chyfraith yr UE mewn ystod eang o feysydd lle bwriedir creu fframweithiau. Bydd angen i fframweithiau cyffredin sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon roi sylw i hyn. Bydd y mater hwn yn dod yn amlycach os bydd y DU yn gwyro oddi wrth reolau'r UE yn y dyfodol ac os bydd y DU ac Iwerddon yn gwyro oddi wrth ei gilydd o ran rhwymedigaethau rhyngwladol perthnasol.

### 3.3.c Trefniadau masnachu yn y dyfodol â'r UE ac yn rhyngwladol

Mae **seithfed adroddiad Llywodraeth y DU ar fframweithiau cyffredin** yn nodi bod llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig yn parhau i ddatblygu'r berthynas rhwng y fframweithiau cyffredin a'r trafodaethau ar gytundebau masnach rydd.

Nid yw'n glir beth fydd y berthynas yn y dyfodol rhwng y trefniadau masnachu yn y dyfodol ar y naill law, a marchnad fewnol y DU a'r broses o ddatblygu fframweithiau cyffredin ar y llaw arall. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban ar farchnad fewnol y DU, dywedodd **Emily Lydgate a Chloe Antony o Arsyllfa Polisi Masnach y DU**:

> Trade negotiations drive changes to UK domestic legislation. They thus provide a catalyst for internal market disruption, particularly given Scotland's intent to maintain alignment with EU regulation. Again, the example of food safety is instructive. The US approach differs notably from that of the EU, and it has made clear that aligning UK rules and processes with those of the US is a key negotiating objective, which would encompass changes to regulation in virtually all of the areas we outlined above.

Fe wnaethant amlinellu dau opsiwn ar gyfer sut y gallai Llywodraeth y DU reoli sefyllfa lle byddai gan yr Alban (yn yr achos hwn) a rhannau eraill o'r DU safbwyntiau gwahanol:

- Caniatáu i drefniadau'r Alban barhau'n gyson â rhai'r UE (ynghyd â Gogledd Iwerddon); neu
- Ceisio gorfodi canlyniad cytundeb masnach â gwlad arall, e.e. yr UDA, a hynny e.e. drwy'r pwerau rhewi yn adran 12 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Adran 82 o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** yn rhoi pwerau i Ysgrifennydd Gwladol y DU roi cyfarwyddyd i Lywodraeth Cymru wrth gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Er enghraifft, gallai roi cyfarwyddyd i Lywodraeth Cymru i weithredu i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth ryngwladol neu i beidio â chymryd camau a fyddai ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol yn groes i rwymedigaeth ryngwladol. Mae adran 114 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn yn gwahardd y Llywydd rhag cyflwyno Bil Senedd am Gydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol dros gredu y byddai'r Bil hwnnw'n groes i rwymedigaeth ryngwladol.

## 3.4. Datrys anghydfodau a'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol

Bydd gan y fframweithiau cyffredin eu mecanweithiau eu hunain ar gyfer datrys anghydfodau. Yn y **fframwaith amlinellol ar Sylweddau Peryglus** ceir proses i ddatrys anghydfodau, a honno'n golygu uwchgyfeirio achosion o anghytuno o lefel arweinwyr polisi i gyfarwyddwyr ac yna i weinidogion. O ran datrys anghydfodau ar lefel weinidogol, dywed y fframwaith:

> This is expected to be a last resort for only the most serious issues and where all alternatives have been exhausted. In very extreme cases the Secretary of State has step-in powers, already built into Devolution settlements, although we do not envisage these forming any part of the framework.

Yn yr un modd, mae cytundebau rhynglywodraethol (gweler adran 4 isod) hefyd

yn darparu y bydd anghydfodau'n cael eu uwchgyfeirio i lefel weinidogol. Mae'r **Cytundeb Dwyochrog ar Amaethyddiaeth** yn datgan:

> [...] the administrations are committed to seek to proceed by agreement. But if this is not possible, the matter would be escalated in line with the existing MoU governing Intergovernmental relations and any future agreements in place between Defra and the DAs on dispute resolution.

Mae hefyd yn darparu bod yn rhaid i unrhyw lywodraeth sy'n bwriadu newid y trefniadau cyllido ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol gyflwyno'r cynigion i'r pedwar gweinidog amaeth gyda'r nod o sicrhau cytundeb. Os na ellir dod i gonsensws, cyfeirir yr anghydfod fel rheol at banel arbenigol a ddewisir gan y Grŵp Rhyngweinidogol. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Yn ogystal â datblygu prosesau datrys anghydfodau ar gyfer fframweithiau unigol, mae'r llywodraethau hefyd wedi bod yn adolygu sut i ddatrys anghydfodau yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion. **Barn Llywodraeth Cymru** yw nad yw'r broses ar gyfer datrys anghydfodau gweinidogol yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion yn effeithiol. Dechreuodd llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn 2018. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 2 Mehefin, wrth drafod y meysydd y dylid bwrw ymlaen â hwy, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** ei fod yn credu bod cydnabyddiaeth mai datrys anghydfodau oedd ar frig y rhestr. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cael rhai arwyddion calonogol, ond bod angen bellach troi hynny'n gynnydd cyflym.

# 4. Datblygu cyfraith a pholisi ym meysydd y fframweithiau cyffredin

Mae llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig wedi cytuno i sefydlu fframweithiau cyffredin yn rhai o'r meysydd yr arferai cyfraith yr UE fod yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd y fframweithiau cyffredin yn rhoi sylw i'r holl ddatblygiadau yn y gyfraith ac mewn polisi yn y meysydd hyn. Ym mis Rhagfyr 2019, **mynegodd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd bryder am hyn**:

> [...] nid yw'n ymddangos bod y rhaglen fframwaith graidd yn llwyr adlewyrchu'r holl gytundebau a deddfwriaeth rynglywodraethol y gellid ystyried eu bod yn sefydlu fframweithiau polisi cyffredin ar gyfer y DU gyfan.

## 4.1. Dargadw cyfraith yr UE a fframweithiau cyffredin

Drwy'r broses o wneud offerynnau statudol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae pwerau'r UE wedi'u trosglwyddo i awdurdodau ar lefel y DU ac yng Nghymru. Wrth drafod cyfreithiau newydd ym maes yr amgylchedd, diogelwch bwyd a lles anifeiliaid yn y DU, a'r rheini'n gweithredu heb yr UE a'i sefydliadau, mae **Arsyllfa Polisi Masnach y DU** wedi dweud nad yw'n gywir awgrymu nad yw'r rhain yn fframweithiau cyfreithiol newydd.

Ym mis Chwefror 2019, **mynegodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd bryderon** bod rhai offerynnau statudol wedi cyflwyno polisïau newydd, a hynny'n groes i'r **Cytundeb Rhynglywodraethol**. Mae'r cytundeb hwn yn darparu na cheir defnyddio pwerau i ddeddfu mewn ffordd sy'n creu polisïau newydd mewn meysydd datganoledig. Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i offerynnau statudol ar gyfer ymadael â'r UE ar y sail bod 'cydsynio i OS ar draws Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU'.

Yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2019, rhoddodd **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd** enghreifftiau o offerynnau statudol a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a allai fod wedi creu neu gyfrannu at greu fframweithiau, heb gael eu nodi felly. Yn ei **ymateb** ym mis Ionawr 2020 i'r adroddiad hwnnw, dywedodd Llywodraeth Cymru '[nad] yw'r un ddeddfwriaeth a basiwyd yn y Pumed Cynulliad yn ymwneud â'r un o'r Fframweithiau Cyffredin'. **Barn Llywodraeth Cymru** yw bod y fframweithiau cyffredin yn 'faes gwaith annibynnol', ar wahân i fathau eraill o weithio

rhynglywodraethol, a'i fod yn destun proses gymeradwyo a chraffu benodol.

## 4.2. Datblygu fframweithiau dros dro

Yn ei lythyr at Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd ar 2 Gorffennaf, nododd y Cwnsler Cyffredinol y byddai trefniadau fframwaith dros dro yn cael eu datblygu pan na fyddai fframweithiau wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn (gweler adran 2,2a uchod).

Mae **Llywodraeth y DU wedi cadarnhau** bod llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig wedi datblygu fframweithiau dros dro mewn rhai meysydd, fel rhan o'r paratoadau i adael yr UE heb gytundeb yn y cyfnod a arweiniai at fis Hydref 2019. Nid oedd y broses o gymeradwyo'r fframweithiau cyffredin yn berthnasol i'r rhain.

Mewn llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Awst 2019, **dywedodd Llywodraeth Cymru** fod cyd-gydnabod cymwysterau yn un maes lle defnyddiwyd offeryn statudol fel fframwaith dros dro pe bai'r DU yn gadael heb gytundeb.

## 4.3. Deddfwriaeth sylfaenol

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd lle mae disgwyl fframweithiau, gan sefydlu fframweithiau statudol newydd a rhoi pwerau i weinidogion llywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig.

Yn ei ymateb i adroddiad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd ar graffu ar fframweithiau cyffredin, **ymrwymodd y Gweinidog** i hysbysu'r Senedd pan fyddai deddfwriaeth, boed i'w hystyried gan y Senedd neu Senedd y DU, yn ymwneud â fframwaith polisi cyffredin ledled y DU.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod memoranda caniatâd deddfwriaethol ar gyfer y Biliau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Masnach a'r Amgylchedd. Mewn llythyr ym mis Rhagfyr 2019, dywedodd y Prif Weinidog y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y fframweithiau amaethyddiaeth a physgodfeydd.

## 4.3.a Y Bil Amaethyddiaeth

Nid yw **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** na **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol** Llywodraeth Cymru ar gyfer y **Bil Amaethyddiaeth** yn cyfeirio at y rhaglen fframweithiau cyffredin.

Fodd bynnag, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn nifer o feysydd lle mae disgwyl cael fframweithiau cyffredin. Yn eu plith mae cymorth ar gyfer amaethyddiaeth (atodlen 5); iechyd anifeiliaid ac olrhain anifeiliaid (cymal 32); cynhyrchion organig (cymalau 36-37); a rheoliadau gwrtaith (cymal 31). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i **Gytundeb Dwyochrog** ar bwerau yng nghymalau 40-42 o'r Bil ar gydymffurfio â Chytundeb Amaethyddiaeth Sefydliad Masnach y Byd (gweler adran 4.4 isod). Mae mwy o wybodaeth am y darpariaethau hyn ar gael ym **Mriff Ymchwil y Senedd ar y Bil**.

Yn ei **adroddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol**, sylwodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd nad oedd y Memorandwm yn dweud a yw'r Bil yn ffurfio fframwaith cyffredin ai peidio, neu'n rhan o un. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r gweinidog portffolio egluro i ba raddau y mae'r Bil yn ymwneud ag unrhyw fframwaith cyffredin ac, os yw'n briodol, nodi'n glir y darpariaethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r fframwaith hwnnw.

Mae **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth yr Alban** yn datgan:

> In relation to organic products and fertilisers, non-statutory frameworks have been proposed, with clauses 31, 36 and 37 providing any required statutory underpinning. 33. Part 6 (WTO Agreement on Agriculture) establishes a statutory framework.

Mae'r **gweinidog Fergus Ewing yn yr Alban** wedi awgrymu bod Llywodraeth yr Alban am weld gofyniad am gydsyniad gan y llywodraeth ddatganoledig pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau ar gynhyrchion organig, er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r fframwaith anstatudol sy'n nodi'r trefniadau gweithio.

## 4.3.b Y Bil Pysgodfeydd

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan yn ei **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** bod y **Bil Pysgodfeydd** yn creu prif elfennau deddfwriaethol y fframwaith i reoli a chefnogi pysgodfeydd. Mae Cymal 1 o Fil y DU yn amlinellu amcanion Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer pysgodfeydd yn y DU. Rhaid i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd (sy'n cynnwys

gweinidogion Cymru) gyhoeddi polisïau ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn, neu gyfrannu atynt, mewn datganiad pysgodfeydd ar y cyd (cymal 2).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu dod i gytundeb rhynglywodraethol ar bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota (gweler adran 4.4 isod).

Yn ei **adroddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol**, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru 'egluro a chadarnhau pa ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r nod a ddymunir, sef cael fframwaith cyffredin deddfwriaethol ar gyfer y DU gyfan ym maes pysgodfeydd'.

### 4.3.c Bil yr Amgylchedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn egluro yn ei **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** a yw **Bil yr Amgylchedd** yn ymwneud ag unrhyw fframwaith. Fodd bynnag, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth mewn nifer o feysydd lle mae disgwyl cael fframweithiau cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth (Rhan 1); gwastraff (Rhan 3); rheoleiddio cemegolion a chemegau (cymal 125); a sylweddau peryglus (cymal 57).

Yn ei adroddiad ar **femorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth yr Alban**, mae **Pwyllgor yr Amgylchedd yn Senedd yr Alban** yn dweud ei bod yn hanfodol, er mwyn craffu'n effeithiol, bod gan y Senedd wybodaeth lawn am y trefniadau llywodraethu a geir yn y fframweithiau cyffredin perthnasol, arfaethedig, ochr yn ochr â'r cynigion deddfwriaethol. Dywed na ddarparwyd unrhyw wybodaeth o'r fath.

### 4.3.d Y Bil Masnach

Mae'r **Bil Masnach** yn cynnwys pwerau i weithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (cymal 1). Yn flaenorol, roedd y DU yn rhan o'r cytundeb hwn fel Aelod-wladwriaeth o'r UE. Mae caffael yn faes y bwriedir creu fframwaith ar ei gyfer.

### 4.3.e Y Ddeddf Gofal Iechyd (AEE a'r Swistir)

Mewn llythyr at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Medi 2019, **cadarnhaodd Llywodraeth Cymru** y byddai darpariaethau y **Ddeddf Gofal Iechyd (AEE a'r Swistir)** 'yn cael eu cyfuno gyda Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth creiddiol er mwyn ffurfio'r fframwaith gofal iechyd cilyddol maes o

law'. Daeth llywodraethau'r DU a Chymru hefyd i gytundeb rhynglywodraethol ar ddefnyddio pwerau yn y Ddeddf (gweler adran 4.4 isod).

## 4.4. Defnyddio cytundebau rhynglywodraethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis defnyddio cytundebau rhynglywodraethol i gyd-fynd â deddfwriaeth sylfaenol y DU mewn nifer o achosion. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd ar 15 Mehefin, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** y byddai amgylchiadau lle na fyddai Llywodraeth Cymru'n cytuno i fframwaith – er enghraifft, pe na bai'n credu bod y ffin ddatganoli yn cael ei pharchu neu'i hadlewyrchu'n iawn. Mae cytundebau rhynglywodraethol wedi cael eu defnyddio sawl gwaith fel ffordd o ddatrys anghydfodau ynghylch cymhwysedd.

- Lluniwyd y **Cytundeb Rhynglywodraethol ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018** pan anghytunai llywodraethau'r DU a Chymru am y pwerau rhewi yn y Bil. Mae'r cytundeb yn darparu na ofynnir fel rheol i Senedd y DU gymeradwyo rheoliadau rhewi o dan adran 12 o'r Ddeddf heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig, yn ogystal â darparu ar gyfer sefydlu fframweithiau cyffredin.
- Lluniwyd y **Cytundeb Dwyochrog ar y Bil Amaethyddiaeth** pan anghytunai llywodraethau'r DU a Chymru ynghylch a oedd y pwerau yn y Bil a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth yn fater a oedd wedi'i ddatganoli ynteu wedi'i gadw yn ôl (cymalau 40-42 ar hyn o bryd). Mae'r cytundeb yn darparu y bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo yn Nhŷ'r Cyffredin i ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig cyn gwneud rheoliadau gyda'r pŵer hwn, gyda'r nod o sicrhau cytundeb. Os na cheir cytundeb, bydd y llythyrau a anfonwyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gael i Senedd y DU eu gweld. Fel rheol, bydd anghydfodau ynghylch y modd y mae rheoliadau'n cael eu gweithredu yn cael eu cyfeirio at banel arbenigol a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y penderfyniad terfynol.
- Lluniwyd y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Ddeddf Gofal Iechyd (AEE a'r Swistir)** oherwydd bod Llywodraeth Cymru'n pryderu nad oedd y Bil yn gofyn am gydsyniad gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fyddai'n rhoi ar waith fanylion trefniadau gofal iechyd newydd, er y byddai'r rhain yn gosod rhwymedigaethau ar GIG Cymru. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn darparu yr ymgynghorir â Llywodraeth Cymru wrth drafod cytundebau gofal iechyd newydd; wrth ddatblygu a drafftio rheoliadau o dan y Bil i weithredu cytundebau o'r fath; wrth lunio cytundebau sy'n berthnasol i Gymru neu sydd

â goblygiadau i Gymru; ac wrth lunio rheoliadau sy'n gweithredu'r cytundebau hynny.

- Mae'r **cytundeb arfaethedig ar y Bil Pysgodfeydd** yn cael ei drafod oherwydd bod llywodraethau'r DU a Chymru yn anghytuno ynghylch a yw'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cyfleoedd pysgota (cymalau 23-24 ar hyn o bryd) yn fater sydd wedi'i ddatganoli ynteu wedi'i gadw yn ôl. Nid yw'n glir beth fydd darpariaethau'r cytundeb.

Yn ei lythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd ar 11 Mehefin, **dywedodd y Prif Weinidog** y 'byddai'n well' gan Lywodraeth Cymru beidio â defnyddio cytundebau rhynglywodraethol i ymdrin â'r defnydd o bwerau mewn deddfwriaeth. Dywedodd:

> [...] lle nad yw Llywodraeth y DU yn barod i gytuno ar gynnwys darpariaethau o'r fath ar wyneb ei Biliau, mae dewis anodd yn wynebu Llywodraeth Cymru. Ar un llaw, gallem argymell nad yw'r Senedd yn cydsynio i Fil y DU, gan arwain at risg glir y bydd Llywodraeth y DU yn gwahodd Senedd y DU i anwybyddu'r diffyg cydsyniad hwn, gan danseilio confensiwn Sewel ymhellach. Ar y llaw arall, gallem ystyried atebion nad ydynt yn rhai deddfwriaethol, megis cytundeb rhynglywodraethol i alluogi argymhelliad bod y Senedd yn cydsynio i Fil. Yn yr amgylchiadau cyfansoddiadol a gwleidyddol presennol, gyda Llywodraeth sydd â chryn fwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yn wyneb yr heriau sylweddol sy'n codi o ran polisi a deddfwriaeth yn sgil ymadael a'r UE, mae'n debygol mai'r ail opsiwn hwn a ffefrir gennym mewn rhai achosion.

Dywedodd y Prif Weinidog nad oedd gan gytundebau rhynglywodraethol ar ddeddfwriaeth 'nodweddion defnyddiol' fel sydd gan y rhaglen fframweithiau cyffredin, gydag 'amserlenni cywasgedig' ac 'anghydweld o ran y safbwyntiau negodi'. Dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn 'rhoi gwybod yn gynnar' am yr angen am drafodaethau a beth yw ei blaenoriaethau lle bo hynny'n bosibl ac y byddai'n 'nod bob amser' ganddi i gyflwyno'r cytundeb terfynol i lywio'r penderfyniad ynghylch rhoi cydsyniad deddfwriaethol.